



# **GRANT AMDDIFAEDED DISGYBLION**



**YSGOL BRO MYRDDIN  
2016-17**

## Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin – Grant Amddifadedd Disgyblion 2016-2017

### Manylion y gwariant

**Cyfanswm y grant: £29,900**

Cynllun	Cost a manylion
<p><b>Ariannu swyddog presenoldeb, iechyd a lles disgyblion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>I gefnogi disgyblion PYD trwy roi gwasanaeth cymorth, cyfarwyddyd a mentora i ddysgwyr dynodedig.</li> <li>Gweithio gyda unigolion a grwpiau penodol gan wneud gwiriadau presenoldeb rheolaidd a chysylltu â rhieni a disgyblion i wella presenoldeb ar ôl trafodaeth gyda'r pennaeth cynorthwyol.</li> <li>Mynychu cyfarfodydd wythnosol rhwng yr UDA a'r Penaethiaid Blwyddyn parthed lles, iechyd, ymddygiad a phresenoldeb disgyblion bl 7-13 gan gynnwys disgyblion PYD.</li> <li>Mynychu cyfarfodydd tymhorol TAF.</li> <li>Trwy gydweithio gyda'r swyddog ieuencid, creu proffil o bob disgybl PYD.</li> <li>Cynorthwyo disgyblion PYD bregus yr ysgol ymhob agwedd o'u bywyd, boed yn fugeiliol neu'n addysgiadol. Datblygu mecanweithiau cefnogi i'r disgyblion hynny a'u cyfeirio pan fo angen at arbenigwyr i gael cymorth.</li> <li>Cydweithio gyda'r PB i adnabod anghenion y disgyblion PYD unigol gan sicrhau eu bod yn cael cyfle cyfartal.</li> <li>Cydweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am les disgyblion ac asiantaethau allanol.</li> </ul>	£18,782
<p><b>Defnyddio systemau cyfrifiadurol i fonitro a thracio disgyblion PYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pwrcasu trwydded i'r rhaglen Lucid Exact i asesu llythrennedd disgyblion unigol</li> <li>Cwblhau asesiadau mwy diagnostig gyda'r disgyblion bregus.</li> </ul>	Cost trwydded @ 40 defnyddiwr = £605 Rhyddhau ALENCO - 6 diwrnod @ £250 = £1,500
<p><b>Cynllun mentora cyfoedion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyfforddi disgyblion bl 12 i fod yn fentoriaid cyfoedion ar gyfer disgyblion bregus a disgyblion PYD. Dau ddiwrnod hyfforddi disgyblion / paratoi adnoddau i athrawes a'r swyddog presenoldeb, iechyd a lles.</li> </ul>	Cost rhyddhau athrawes am ddau ddiwrnod i gynnal a datblygu'r hyfforddiant @ £250 = £500
<p><b>Mentora tangyflawnwyr gan gynnwys disgyblion PYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trwy wirio systemau cefnogi'r ysgol, Penaethiaid Blwyddyn i adnabod y disgyblion unigol gan gydweithio gyda'r disgybl a'r rhiant.</li> </ul>	Rhyddhau 7 Pennaeth Blwyddyn am ddeuddydd @ £250 y diwrnod = £3,500
<p><b>Cynllun gwersi ymyrraeth:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu sesiynau ymyrraeth a sesiynau adolygu penodol i ddisgyblion PYD CA4 (2016)</li> </ul>	Rhyddhau athrawon i gynnal sesiynau penodol = £4,513
<p><b>Cynlluniau ariannu unigol yn codi o'r proffil disgybl unigol</b></p>	£500

